OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2217 (Cy.193)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi mai'r rheoleiddiwr priodol at ddibenion adran 96 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoleiddiwr priodol bennu materion nad ydynt yn cael eu dal gan y ddyletswydd sydd ar gyrff cymwysterau o dan yr adran honno i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi hefyd mai'r cymwysterau a restrir yn yr Atodlen yw'r cymwysterau perthnasol at ddibenion adrannau 96 a 97 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2217 (W.193)

# EDUCATION, WALES

## The Equality Act 2010 (General Qualifications Bodies Regulator and Relevant Qualifications) (Wales) Regulations 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations prescribe the Welsh Ministers as the appropriate regulator for the purposes of section 96 of the Equality Act 2010. The appropriate regulator may specify matters which are not caught by the duty on qualifications bodies under that section to make reasonable adjustments for disabled people.

These Regulations also prescribe that relevant qualifications, for the purposes of sections 96 and 97 of the Equality Act 2010, are those listed in the Schedule.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2217 (Cy.193)

## ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Medi 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *7 Medi 2010* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 96(10) a 97(3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Hydref 2010 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Y rheoleiddiwr priodol**

**2**. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu rhagnodi fel y rheoleiddiwr priodol mewn perthynas â chorff cymwysterau sy'n rhoi cymwysterau yng Nghymru.

**Cymwysterau Perthnasol**

**3**. Mae'r cymwysterau a restrir yn yr Atodlen wedi eu rhagnodi'n gymwysterau perthnasol mewn perthynas â rhoi cymwysterau yng Nghymru.

(**1**) 2010 p.15. Cychwynnodd Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cychwyn Rhif 1) 2010 (O.S. 2010/1736) adrannau 96 a 97 ar 6 Gorffennaf 2010 i'r graddau y maent yn rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau neu'n ymwneud â'r pŵer i wneud hynny.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2217 (W.193)

## EDUCATION, WALES

## The Equality Act 2010 (General Qualifications Bodies Regulator and Relevant Qualifications) (Wales) Regulations 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *6 September 2010* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *7 September 2010* |
| *Coming into force* | *1 October 2010* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by sections 96(10) and 97(3) of the Equality Act 2010(**1**), make the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1**.–(1) The title of these Regulations is the Equality Act 2010 (General Qualifications Bodies Regulator and Relevant Qualifications) (Wales) Regulations 2010.

(2) These Regulations come into force on 1 October 2010 and apply in relation to Wales.

**The appropriate regulator**

**2**.The Welsh Ministers are prescribed as the appropriate regulator in relation to a qualifications body that confers qualifications in Wales.

**Relevant Qualifications**

**3**. The qualifications listed in the Schedule are prescribed as relevant qualifications in relation to conferments of qualifications in Wales.

(**1**) 2010 c.15. The Equality Act 2010 (Commencement No.1) Order 2010 (S.I. 2010/1736) commenced sections 96 and 97 on 6 July 2010 to the extent that they confer or relate to the power to make subordinate legislation or guidance.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

6 Medi 2010

Minister for Children, Education and Lifelong Learning, one of the Welsh Ministers

6 September 2010

Rheoliad 3

## YR ATODLEN

1.Dyfarniadau Uwch Estynedig

2.Cymwysterau tystysgrif lefel mynediad

3.Cymwysterau Mathemateg Annibynnol

4.Sgiliau Gweithredol

5.Tystysgrif Addysg Gyffredinol lefel A (U ac UG)

6.Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

7.Y Fagloriaeth Ryngwladol

8.Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol Cymru

9.Cymwysterau Prif Ddysgu a Phrosiect

10. Tystysgrif Graidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

regulation 3

## SCHEDULE

1. Advanced Extension Awards

2. Entry level certificate qualifications

3. Free Standing Maths Qualifications

4. Functional Skills

5.General Certificate of Education Advanced level (A and AS levels)

6. General Certificate of Secondary Education

7. The International Baccalaureate

8. Key Skills and Essential Skills Wales

9. Principal Learning and Project Qualifications

10. The Welsh Baccalaureate Qualification Core Certificate

---

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W750/09/10 ON